# Bwletin Ysgol Llangadog

# 16/07


Dilynwch yr ysgol ar Twitter - @YsgLlangadog

Rhifau Ffon Cyswllt – 01550 777519

Gwefan yr ysgol - https://ysgol-llangadog.weebly.com

Pennaeth – Angharad Vaughan-Owen e-bost – angharad.vaughan-owen@llangadog.ysgolccc.cymru

admin@llangadog.ysgolccc.cymru


## Dyddiadau Pwysig

**15/07** – Diwedd Tymor
**18/07** – HMS -Dim ysgol i ddisgyblion
**19/07** - Gŵyl Banc Jiwbilî y Frenhines i'n hysgol ni yn unig – Ysgol ar Gau
**02/09** – Diwrnod HMS - Ar gau i ddisgyblion.
**05/09** – Tymor yr Hydref yn dechrau.
**31/10 – 04/11** – HANNER TYMOR
**23/12** – Diwedd Tymor yr Hydref

Dyma ni wedi cyrraedd diwedd y tymor a diwedd y flwyddyn academaidd. Dymunwn gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr iawn i chi' gyd am eich cefnogaeth yn ystod blwyddyn sydd unwaith eto wedi profi'n un heriol i ddisgyblion, teuluoedd a staff. Mae tymor yr Haf wedi'n galluogi i brofi ychydig bach o normalrwydd gyda chyfleoedd i'ch croesawu chi' gyd i'r ffair haf, mabolgampau a gwasanaeth ymadael blwyddyn 6 Roedd cael eich presenoldeb yn y digwyddiadau yma yn fendigedig i ni fel ysgol ac roedd eich cefnogaeth yn amhrisiadwy! Diolch! Gobeithiwn yn fawr cewch wyliau haeddiannol yn ystod yr wythnosau nesaf ac edrychwn ymlaen yn fawr at dymor yr Hydref a pharatoadau ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn dechrau.

## Blwyddyn 6

Braf oedd cynnal gwasanaeth ymadael i flwyddyn 6 ym mhresenoldeb rhieni a theulu eleni. Hyfryd oedd clywed atgofion y disgyblion o'u blynyddoedd yn ysgol Llangadog a gwych oedd gweld yr amrywiaeth o sgiliau roedd bob un ohonynt wedi datblygu. Er yn anodd ffarwelio gyda'r cymeriadau, rydym yn ffyddiog eu bod yn barod am yr her newydd sydd o'u blaenau yn Ysgol Bro Dinefwr! I ambell deulu, dyma oedd diwedd eich cyfnod fel rhieni yn ein hysgol ni a dymunwn ddiolch i chi am eich cyfraniad hael iawn i'r ysgol dros y blynyddoedd!

## Disgyblion Newydd

Croeso cynnes iawn i ddisgyblion a rhieni newydd sy'n ymuno â ni ym mis Medi. Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau'r bartneriaeth rhyngom.

## Staffio

Dymunaf gymryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr i Mr Steffan Davies sydd wedi bod gennym fel athro yn ysgol Llangadog ers mis Medi. Mae cyfnod Mr Davies yn ein hysgol wedi dod i ben ond gobeithio'n fawr bod y flwyddyn yn ein hysgol wedi gosod sylfaen da iddo wrth ddechrau ar ei yrfa ym myd addysg. Diolch yn fawr Mr Davies! Byddwn yn gweld dy eisiau yn fawr!

Yn nosbarth Sawdde ym Medi byddwn yn croesawu Miss Cerys Jones fel athrawes ddosbarth am y tymor. Bu Miss Jones yn y dosbarth dydd Mercher ddiwethaf yn cwrdd â'r disgyblion ac edrychwn ymlaen yn fawr at ei chyfraniad i deulu Ysgol Llangadog.

## Gwisg Ysgol

Cais caredig i sicrhau bod eich plentyn yn dychwelyd atom ym mis Medi yn gwisgo'r wisg ysgol gywir. Rydym yn ymfalchïo yn ein gwisg ysgol ac rydym am sicrhau bod pawb yn cydymffurfio. Trowsus, sgert neu ffrog ddu dylai fod gyda'n crys polo a siwmper/cardigan ysgol. Disgwylir i ddisgyblion wisgo esgidiau du gan gadw esgidiau ymarfer ar gyfer gwersi addysg gorfforol yn unig. Pe bai angen cefnogaeth ariannol arnoch i brynu gwisg ysgol yna cysylltwch â mi yn uniongyrchol.

### 'DOES UNMAN YN DEBYG I ADREF'

THEMA TYMOR YR HYDREF

Ein thema ym mis Medi fydd 'Does unman yn debyg i adref'. Byddwn yn edrych ar gartrefi/gynefinoedd pobl/anifeiliaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Pe bai gennych unrhyw lyfrau/lluniau/adnoddau addas croeso cynnes i chi anfon nhw mewn gyda'ch plentyn ym Medi. Hefyd, pe bai gennych unrhyw awgrymiadau am beth gall y disgyblion ddysgu yn ymwneud â'r thema yna e-bostiwch eich syniadau ataf.

Urdd

Byddwn hefyd yn dechrau paratoi ar gyfer cystadlaethau Eisteddfod yr Urdd a fydd yn Llanymddyfri ym mis Mai 2023.

**Mwynhewch yr haf, cymerwch ofal yn y gwres a diolch yn fawr am eich rhoddion diwedd tymor i'r staff!**

# Ysgol Llangadog Bulletin

## *16/07*

Follow the school on Twitter - @YsgLlangadog

Contact number – 01550 777519

Gwefan yr ysgol - https://ysgol-llangadog.weebly.com

Headteacher – Angharad Vaughan-Owen  e-mail – angharad.vaughan-owen@llangadog.ysgolccc.cymru

admin@llangadog.ysgolccc.cymru

### Important Dates

**15/07** – End of term
**18/07** – INSET day – No school for pupils.
**19/07** - Queen's Jubilee Bank Holiday for our school only – School Closed
**02/09** – INSET day – no school for pupils.
**05/09** – Autumn Term begins.
**31/10** – 04/11 – HALF TERM
**23/12** – End of term.

Here we are at the end of term and the end of this academic year. We would like to take this opportunity to thank you all for your support during a year that has once again had its challenges for pupils, families and staff. Summer term has allowed us to experience some normality and it truly has been wonderful to be able to welcome you all to events such as the summer fayre, sports day and the year 6 leavers' assembly. Your support in these events has been invaluable! Diolch!

We hope that you have a wonderful time during the summer and we very much look forward to the Autumn term when we will begin to prepare for the Urdd Eisteddfod.

### Blwyddyn 6

Holding a year 6 leavers' assembly in the presence of parents and family this year was wonderful. Listening to the children's memories of school life and realising just how much every one of them has developed during their time here was magical. Saying farewell to these characters is difficult but we are confident that they are more than ready for the new challenge that lay ahead of them in ysgol Bro Dinefwr. For some families, this is the end of your time as parents in our school and we would like to take this opportunity to thank you wholeheartedly for your generous contribution to our school over the years.

### New Pupils

A very warm welcome to new pupils and parents in September.

We look forward to the beginning of a new partnership!

### Staffing

I would like to take this opportunity to thank Mr Steffan Davies who has been here with us as a teacher since September last year. Mr Davies' time here with us has come to an end but I sincerely hope that the time with us here at Llangadog has given him a good foundation as he begins his teaching career. Thank you Mr Davies, we will miss you!

In dosbarth Sawdde, we will be welcoming Miss Cerys Jones as a class teacher for the term. Miss Jones was in the class last Wednesday meeting the pupils and we very much look forward to her contribution to Ysgol Llangadog

### School uniform

We kindly ask that you ensure that your child returns to us in September wearing the correct school uniform. We are proud of our uniform and would like to ensure that everyone complies. Our polo shirt and jumper/cardigan should be paired with black trousers/skirt or pinnafore dress and school shoes should be worn with trainers used for PE lessons only. Should you require any financial support towards purchasing uniform, please contact me directly.

### 'THERE'S NO PLACE LIKE HOME'

Autumn term theme.

Our theme next term will be 'There's no place like home'. We will be looking at homes/habitats on a local, national and international level. Should you have any resources that you feel would support learners please feel free to send them in during next term. Also, should you have any ideas/suggestions with regards to what the children could learn about on this theme– please e-mail us.

Urdd

We will also be starting our preparations towards the Urdd Eisteddfod which will be taking place in Llandovery in May 2023.

**Enjoy the summer, take care in the extreme heat and thank you for your kind gifts to staff at the end of term!**

## Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (CRhA) / Parent Teachers Association (PTA)

Annwyl Rieni/Dear parents. Gorffennaf/July 2022

**MATERION CrhA / PTA MATTERS**

**Mabolgampau/Sports Day**

Codwyd £157.12 i'r gronfa. *We raised £157.12 for the funds.*

**Rags 2 Riches**

Mae casgliadau diweddar Rags 2 Riches wedi dod mewn a £75.32, nid yw hwn yn cynnwys casgliad mis Gorffennaf. *Recent Rags 2 Riches collections have gained the PTA funds £75.32 this does not include the July collection.*




**Ffair Haf/Summer Fayre**

Diolch i bawb a fynychodd y Ffair Haf ac Agoriad yr Adeilad Newydd. Cododd y digwyddiad £738.27. *Thank you to everyone who attended the recent Summer Fayre and Opening of New School building. The event raised £738.27*

**DIOLCH!**

Wrth i ni ddod at ddiwedd y tymor hoffwn ddiolch i chi ar ran CRhA am eich holl gyfraniadau diweddar a'ch parodrwydd i gefnogi ymdrechion codi arian. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r gweithgareddau a'r digwyddiadau a drefnwyd.

Mae'r CRhA yn falch o allu rhoi crys T addysg gorfforol a bag llyfrau i bob disgybl newydd sy'n dechrau'r ysgol! Mae'n bleser gennym hefyd gyfrannu anrheg Nadolig bob blwyddyn i bob disgybl yn ogystal ag anrheg i'n disgyblion Blwyddyn 6 sy'n gadael. Dyma rai enghreifftiau yn unig o'r ffordd y mae'r ymdrechion codi arian yn cael eu dychwelyd yn ôl i'r ysgol/disgyblion.

Os oes gennych unrhyw syniadau codi arian ar gyfer y dyfodol rhowch wybod i'r ysgol.
Mwynhewch Gwyliau'r Haf a gobeithiwn eich gweld i gyd yn mis Medi.
DIOLCH!

**A BIG Thank You**

*As we come to the end of the 2022 Summer term can i take this opportunity on behalf of PTA to thank you for all your recent contributions, involvement and willingness to support the fundraising efforts of the Committee. We hope you have enjoyed the activities and events arranged.*

*The PTA is pleased to be able to gift every new pupil who starts the school a PE t-shirt and Book Bag! We are also delighted to contribute a Christmas gift each year to all pupils as well as a gift to our year 6 leavers.*
*These are just some examples of the ways in which the fundraising efforts are returned back to the school/pupils.*
*If you have any fundraising ideas for the future please inform the school. Enjoy the Summer Holidays and we hope to see you all in September. THANK YOU!*

# Hwyl fawr a phob lwc Blwyddyn 6!
# Goodbye and good luck Year 6!

